# Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

## Llogi Cyfleusterau

# National Waterfront Museum

## Venue Hire



# Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

Rhowch gyfle i'ch gwahoddedigion glywed hanes rhyfeddol diwydiant a blaengaredd yng Nghymru…

Gyda'i phensaernïaeth arobryn a'i lleoliad heb ei ail wrth y glannau, mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe yn lleoliad rhagorol ar gyfer digwyddiadau corfforaethol a phreifat unigryw – o dderbyniadau diodydd, ciniawau gala, seminarau a diwrnodau hyfforddi, i briodasau a seremonïau gwobrwyo.

Gydag Oriel Warws, Balconi'r Marina, Neuadd Weston ac amryw o fannau hygyrch eraill ar gael i'w llogi yn ystod y dydd a min nos, rydych chi'n siŵr o ganfod y lleoliad perffaith i'ch digwyddiad chi.

Bydd yr holl elw o Logi Cyfleusterau yn helpu i gynnal a chadw a gweinyddu'r Amgueddfa.

# National Waterfront Museum

Invite your guests to explore the fascinating story of industry and innovation in Wales…

With its award-winning architecture and unrivalled waterfront location, the National Waterfront Museum in Swansea offers a superb venue for exclusive corporate and private events from drinks receptions, gala dinners, seminars and training days, to weddings and award ceremonies.

With the Warehouse Gallery, Marina Balcony, Weston Hall and a range of other fully accessible spaces available for daytime and evening hire, you're sure to find the perfect setting for your event.

All profits from Venue Hire help towards maintaining and running the Museum.









Drwy Garedigrwydd / Courtesy of Swansea Life Magazine

## Oriel Warws

Wedi'i lleoli yn warws hanesyddol y dociau gydag arddangosiadau anhygoel yn edrych dros y Marina, mae'r oriel hyblyg hon yn ddelfrydol ar gyfer digwyddiadau lansio, derbyniadau diodydd, ciniawau ffurfiol ac mae ganddi drwydded lawn i gynnal priodasau sifil.

## Y Balconi

Mae'r Balconi trawiadol yn rhoi golygfeydd gwych o Farina Abertawe, a chyda'r Cyntedd Uwch, mae'n lle gwych i groesawu gwahoddedigion beth bynnag fo'r tywydd. Mae gan y Balconi drwydded lawn i gynnal priodasau sifil.

## Yr Oriel Newydd

Mae'r Oriel hon yn arddangos rhai o wrthrychau diwydiannol rhyfeddol yr Amgueddfa yn cynnwys injan stêm, awyren o 1907 a wagen lo. Mae'r lleoliad gwahanol hwn yn destun sgwrs gwych ar gyfer derbyniad min nos.

## Warehouse Gallery

Situated in the historic dockside warehouse and surrounded by amazing exhibits overlooking the Marina, this flexible gallery is ideal for launch events, drinks receptions, seated dinners and is fully licensed for civil wedding ceremonies.

## Marina Balcony & Upper Foyer

The impressive Marina Balcony offers fantastic views of Swansea Marina which, coupled with the Upper Foyer provide a stylish location to entertain guests whatever the weather. The Marina Balcony is also fully licensed for civil wedding ceremonies.

## The New Gallery

This gallery displays some of the Museum's fascinating industrial objects including a steam engine, a 1907 plane and coal wagon. This quirky setting provides a great talking point for an evening reception.










## Y Golofnfa

Gyda digonedd o olau naturiol a mynediad hawdd i Ardd yr Iard, mae'r Golofnfa yn ddewis gwych arall ar gyfer diodydd a rhwydweithio cyn cinio.

## Gardd yr Iard

Lle hyblyg sy'n berffaith ar gyfer partïon gardd gyda digon o le i babell fawr – delfrydol ar gyfer cinio ffurfiol, sioe fasnach neu wledd briodas.

## Neuadd Weston

Mae'r neuadd drawiadol hon â tho gwydr wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau uchel eu proffil ac mae'n ddelfrydol ar gyfer cyflwyniadau, cyngherddau, ciniawau ffurfiol a dawnsio. Gellir llogi Neuadd Weston ar ei phen ei hun neu gyda'r orielau i roi cyfle i wahoddedigion gael golwg preifat ar gasgliadau'r Amgueddfa wrth gael diod cyn cinio.

## Ystafelloedd Cyfarfod y Ddinas a'r Glannau

Mae'r ystafelloedd golau hyn sydd wedi'u hawyru'n dda yn berffaith ar gyfer cyfarfodydd brecwast, seminarau, diwrnodau hyfforddi neu giniawau preifat. Gellir trefnu Ystafell Vivian fel man ychwanegol i gymdeithasu, cynnal gweithgareddau neu i gael lluniaeth.

## Colonnade

With lots of natural sunlight and easy access to the Courtyard Garden, the Colonnade provides another great option for pre-dinner drinks and networking.

## Courtyard Garden

A versatile space perfect for garden parties with ample room for a large marquee ideal for formal dinners, trade shows or wedding receptions.

## Weston Hall

This stunning glass canopied hall has played host to a variety of high profile events and is ideal for presentations, concerts, formal dinners and dancing. The Weston Hall can be hired independently or combined with the galleries to offer guests an exclusive private view of Museum collections over pre-dinner drinks.

## Cityside & Dockside Meeting Rooms

This suite of light and airy rooms are perfect for breakfast meetings, seminars, training days or private dining. The Vivian Room can also be made available as an additional breakout area, activity or refreshment space.









# Y tîm…

Mae ein tîm rheoli digwyddiadau pwrpasol, ein tîm technegol a'n harlwywr arbennig yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i sicrhau bod eich digwyddiad yn llwyddiant ysgubol. Gallwch lawrlwytho pecynnau bwydlenni blasus o'n gwefan.

# Barn ein cleientiaid

*Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol, diolch. Fe gawsom ni wasanaeth ardderchog ac roedd y bwyd yn arbennig.*
Cymdeithas Adeiladu'r Principality

*Rydym wedi cynnal Digwyddiad Dathlu Graddio yr Ysgol Gwyddor Iechyd yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau am dair mlynedd o'r bron. Mae'r staff yn gyfeillgar ac yn barod i helpu, ac mae'r arlwyo wedi bod yn arbennig bob blwyddyn. Lleoliad ysblennydd sy'n hyblyg iawn ac yn addas at bob math o ddigwyddiadau.*
Prifysgol Abertawe

### Cysylltwch â ni…

Am ragor o wybodaeth neu i drefnu apwyntiad i weld ein cyfleusterau gydag aelod o'r tîm Llogi Cyfleusterau cysylltwch trwy'r dulliau canlynol:

**Ffôn:** 029 2057 3600 / 3617
**Ebost:** llogi@amgueddfacymru.ac.uk
priodasau@amgueddfacymru.ac.uk

www.amgueddfacymru.ac.uk

Dewch o hyd i ni ar Facebook
Dilynwch ni ar Twitter

# The team…

Our dedicated event management, technical team and first class caterer provide the highest level of quality and service to ensure your event is a resounding success. Delicious menu packs are available to download from our website.

# What our clients say

*The event was a great success thank you, you looked after us wonderfully and the food was beautiful.*
Principality Building Society

*For the last three years running we have held our School of Medicine Graduation Celebration Event at the National Waterfront Museum. The staff are friendly and very helpful, and the catering has been outstanding each year. A spectacular venue which is very adaptable and leads itself to any type of event.*
Swansea University

### Contact us…

For further information or to make an appointment to view our facilities with a member of the Venue Hire team please contact:

**Tel:** 029 2057 3600 / 3617
**Email:** venue.hire@museumwales.ac.uk
weddings@museumwales.ac.uk

www.museumwales.ac.uk

Find us on Facebook
Follow us on Twitter

# Ffilmio a Ffotograffiaeth

Mae Amgueddfa Cymru yn croesawu ceisiadau i ffilmio yn cynnwys ffilmiau nodwedd, dramâu teledu, rhaglenni dogfen, rhaglenni ffeithiol, cyfweliadau a sesiynau ffotograffiaeth.

Mae ein saith amgueddfa'n cynnig amrywiaeth o leoliadau unigryw – o adeiladau hanesyddol i eco-dŷ o'r unfed ganrif ar hugain, deinosoriaid i orielau celf, gerddi ffurfiol i bwll glo.

Mae dramâu teledu a ffilmiwyd yn ein hamgueddfeydd yn cynnwys *Dr Who*, *Torchwood*, *Sherlock*, *Pobol y Cwm* a *Gwaith Cartref*. Rydym hefyd wedi ymddangos ar *Snowdonia 1850*, *The Coal House* ac *Ancient Britain* ac wedi bod yn lleoliad i'r gyfres boblogaidd *Antiques Roadshow* yn ddiweddar.

Mae'r holl elw o ffilmio masnachol yn helpu i gynnal a chadw a gweinyddu'r Amgueddfeydd.

**Cysylltwch â ni…**

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag aelod o'r tîm Ffilmio Masnachol:

**Ebost:** filming@museumwales.ac.uk
**Ffôn:** 029 2057 3327 / 3129
**Ffacs:** 029 2057 3326

www.amgueddfacymru.ac.uk

Edrychwn ymlaen at glywed gennych chi!

# Filming and Photography

Amgueddfa Cymru – National Museum Wales welcomes filming requests including feature films, television dramas, documentaries, factual programmes, interviews and photographic shoots.

All seven of our museums offer a range of unique locations - from historic buildings to a 21st century eco-house, dinosaurs to art galleries, formal gardens to a coal mine.

TV dramas filmed at our museums include *Dr Who*, *Torchwood*, *Sherlock*, *Pobl y Cwm* and *Gwaith Cartref*. We have also appeared in *Snowdonia 1850*, *The Coal House* and *Ancient Britain* and have recently hosted the much loved *Antiques Roadshow*.

All profit made from commercial filming helps maintain and run our Museums.

**Contact us…**

For further information please contact a member of the Commercial Filming team.

**Email:** filming@museumwales.ac.uk
**Tel:** 029 2057 3327 / 3129
**Fax:** 029 2057 3326

www.museumwales.ac.uk

We look forward to hearing from you!

# Hanes ar Log...

**Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**

**Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru yng Nghaerdydd**

**Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru ym Mlaenafon**

**Amgueddfa Wlân Cymru yn Dre-fach Felindre, ger Castellnewydd Emlyn**

**Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis**

**Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yng Nghaerllion, ger Casnewydd**

**Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe**

# History for Hire...

**National Museum Cardiff**

**St Fagans: National History Museum in Cardiff**

**Big Pit: National Coal Museum in Blaenafon**

**National Wool Museum in Dre-fach Felindre, near Newcastle Emlyn**

**National Slate Museum in Llanberis**

**National Roman Legion Museum in Caerleon, near Newport**

**National Waterfront Museum in Swansea**

**www.museumwales.ac.uk** **www.amgueddfacymru.ac.uk**